# Arolwg 2015 ar Chwaraeon Ysgol

# Cyflwr y Genedl

HOOKED ON SPORT
WEDI GWIRIONI AR CHWARAEON

sportwales
chwaraeoncymru

# Prif ganfyddiadau

**Roedd 48% o'r disgyblion ym Mlynyddoedd 3-11 *wedi gwirioni ar chwaraeon* ac yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu mewn clwb cymunedol deirgwaith neu fwy yr wythnos. Yn 2013, roedd y ffigur yn 40%.**

**Mae cyfrannau tebyg o ddisgyblion cynradd ac uwchradd wedi gwirioni ar chwaraeon – 49% o ddisgyblion cynradd ym Mlynyddoedd 3-6 a 48% o ddisgyblion uwchradd ym Mlynyddoedd 7-11**

**Ceir gwahaniaeth rhwng y rhywiau o hyd mewn lefelau cymryd rhan. Mae 52% o fechgyn a 44% o ferched *wedi gwirioni ar chwaraeon*.**

**Mae'r lefelau cymryd rhan yn amrywio hefyd yn ôl oedran, ethnigrwydd ac anabledd y disgyblion a'u lefel gymharol o gyni. Yn 2015, wrth gymharu â Chymru gyfan, dangosodd yr arolwg bod canrannau uwch wedi'u cofnodi ar gyfer y canlynol:**

- **Disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 (52%)**
- **Disgyblion tras gymysg a du / du Prydeinig (52%)**
- **Disgyblion o'r ysgolion lleiaf difreintiedig[1] (54%)**
- **Disgyblion ysgolion uwchradd a oedd yn siaradwyr Cymraeg (55%)**

**Mae 65% o'r disgyblion yn mwynhau gwersi AG 'yn fawr' a 53% o'r disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon mewn clybiau ar ôl ysgol neu amser cinio (chwaraeon allgyrsiol) 'yn fawr'.**

**Mae 62% o'r disgyblion yn meddwl bod gwersi AG a chwaraeon ysgol yn eu helpu 'yn fawr' i fyw bywyd iach.**

---

[1] *Defnyddir canran y disgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol Am Ddim (PYADd) fel mesur procsi o statws cymdeithasol ac economaidd. Mae gan yr ysgolion yn Chwartel Prydau Ysgol 1 (PYADd 1) lefel isel o ddisgyblion sy'n gymwys am PYADd – ac fe'u hystyrir fel y rhai lleiaf difreintiedig. Mae gan ysgolion yn PYADd 4 lefelau uchel o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a dyma'r rhai mwyaf difreintiedig.*

## Cyflwyniad

Mae ein Gweledigaeth yn datgan blaenoriaethau clir ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Rydyn ni eisiau creu Cymru ble mae ***pob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes***, gyda ***chenedl o bencampwyr***.

Mae'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol yn arolwg ar-lein ar gyfranogiad chwaraeon disgyblion a'r ddarpariaeth mewn ysgolion o Addysg Gorfforol (AG) a chwaraeon**.** Cynhaliwyd yr *Arolwg ar Chwaraeon Ysgol* diweddaraf yn ystod tymor yr haf **2015** rhwng 1**4**eg Ebrill a **21**ain Gorffennaf**.** Mae'r disgyblion yn llenwi holiadur am eu cyfranogiad a'u hagweddau tuag at Addysg Gorfforol (AG) a chwaraeon. Gofynnir i aelod o staff o bob ysgol lenwi holiadur am AG a'r ddarpariaeth chwaraeon yn eu hysgol. Fel rheol, mae hwn yn cael ei lenwi gan y cydlynydd AG mewn ysgolion cynradd neu'r pennaeth AG mewn ysgolion uwchradd.

Mae data'r arolwg hwn yn galluogi Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid i fonitro'n strategol a chofnodi tueddiadau mewn cyfranogiad chwaraeon - gan roi sylw i gyfranogiad yn y gymuned ac yn yr ysgol a chofnodi'r ddarpariaeth AG a chwaraeon ysgol ac agweddau athrawon a disgyblion tuag at AG a chwaraeon. Mae'n darparu sylfaen o dystiolaeth i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion chwaraeon.

Mae'r ystadegau a gyflwynir yn y papur hwn ac yn y gyfres genedlaethol o dablau data i gyd-fynd yn canolbwyntio ar ddisgyblion ysgolion prif ffrwd ym Mlynyddoedd 3-11. Yn arolwg 2015, cymerodd 115,039 o ddisgyblion Blynyddoedd 3-11 ran yn yr arolwg a chwblhaodd 1,094 o athrawon holiadur darpariaeth yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol. Roedd hyn yn gynnydd ar y niferoedd a gymerodd ran yn 2013 – felly hwn yw'r arolwg mwyaf yn y DU ar bobl ifanc a chwaraeon hyd yma.

**Mae'r papur hwn yn cyflwyno crynodeb o'r ddarpariaeth AG a'r cyfranogiad chwaraeon yng Nghymru.**


## AG yn y cwricwlwm

Ers dros bymtheng mlynedd, mae'r cydlynwyr AG mewn ysgolion cynradd a'r Penaethiaid AG mewn ysgolion uwchradd wedi cwblhau holiadur bob dwy flynedd ar y ddarpariaeth AG ar ran eu hysgol. Yn 2015, derbyniwyd 901 o ymatebion gan ysgolion cynradd a 193 gan ysgolion uwchradd.

**Mae Ffigur 1 isod yn dangos y duedd yn yr amser ar gyfartaledd sydd ar gael ar gyfer AG gwricwlaidd yr wythnos. Ledled Cymru, mae cyfartaledd o 100 munud o AG yn cael ei ddarparu ar draws grwpiau blwyddyn 3 i 11 (101 yn 2013). Yng Nghyfnod Allweddol 2 (disgyblion ysgolion cynradd ym Mlynyddoedd 3-6), ceir cyfartaledd o 101 munud o AG yr wythnos. Yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4**

**(disgyblion ysgolion uwchradd ym Mlynyddoedd 7-11), ceir cyfartaledd o 98 munud o AG yr wythnos.**

**Ffigur 1: Nifer y munudau yr wythnos ar gyfartaledd ar gyfer AG gwricwlaidd**





## Wedi Gwirioni ar Chwaraeon: Amledd y cymryd rhan

Ers 2011, mae'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol wedi creu darlun manwl o amledd y cymryd rhan, fel ein bod yn gallu edrych ar sawl gwaith yr wythnos mae disgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden trefnus y tu allan i'r cwricwlwm. Yng Nghymru yn 2015, mae 48% o ddisgyblion ar draws Blynyddoedd 3 i 11 yn cymryd rhan mewn gweithgareddau trefnus y tu allan i amser y cwricwlwm (h.y. chwaraeon allgyrsiol neu glwb) deirgwaith neu fwy yr wythnos. Mae'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn cyfeirio at hyn fel 'wedi gwirioni ar chwaraeon'.

Mae canran y disgyblion sydd 'wedi gwirioni ar chwaraeon' wedi cynyddu ers 2011, pryd cymerodd 27% ran deirgwaith neu fwy ar gyfartaledd yr wythnos, ac ers 2013, pryd roedd 40% 'wedi gwirioni'. O ran cyfnodau'r ysgolion, nid oes llawer o wahaniaeth, gyda 48% o ddisgyblion uwchradd a 49% o ddisgyblion cynradd wedi gwirioni ar chwaraeon yn awr.

Mae Ffigur 2 yn dangos canran y disgyblion sydd wedi gwirioni ar chwaraeon yn y tri arolwg diwethaf.

**Ffigur 2: Wedi gwirioni ar chwaraeon yn ôl rhyw rhwng 2011 a 2015**




Arolwg 2013 oedd y tro cyntaf i ddata fod ar gael i ddisgrifio lefelau'r cymryd rhan mewn chwaraeon ymhlith gwahanol grwpiau ethnig ac mae arolwg 2015 yn adeiladu ar y data yma. Mae Tabl 1 isod yn dangos y gwahaniaethau mewn lefelau cymryd rhan o ran tras a rhyw.


**Tabl 1: Canran y disgyblion sydd *wedi gwirioni ar chwaraeon* yn ol grŵp ethnig a rhyw**

| | **Bechgyn** | | **Merched** | | **Pob disgybl** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2015 | 2013 | 2015 | 2013 | 2015 |
| **Gwyn** | 44 | 52 | 37 | 45 | 41 | 49 |
| **Cymysg** | 46 | 56 | 36 | 48 | 41 | 52 |
| **Du/Du Prydeinig** | 42 | 57 | 30 | 45 | 37 | 52 |
| **Asiaidd/Asiaidd Prydeinig** | 37 | 44 | 20 | 28 | 29 | 36 |
| **Arab/Arall** | 31 | 49 | 26 | 38 | 29 | 39 |
| **CYFFREDINOL** | 44 | 52 | 36 | 44 | 40 | 48 |

Dangosodd arolwg 2013 mai merched Asiaidd/Asiaidd Prydeinig oedd â'r canran isaf am fod wedi gwirioni ar chwaraeon, gydag 20% o'r grŵp hwn yn cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos. Mae'r lefelau cymryd rhan wedi cynyddu ers 2013 ond mae'r grŵp hwn yn is na'r cyfartaledd o hyd, gyda 28% yn cymryd rhan. Yn gyffredinol, disgyblion tras gymysg a disgyblion du/du Prydeinig sydd â'r ganran uchaf am gymryd rhan yn rheolaidd (52%); yn 2013 disgyblion tras gymysg a gwyn oedd y grwpiau a oedd fwyaf tebygol o fod wedi gwirioni ar chwaraeon.
Gellir rhannu'r mesur wedi gwirioni ar chwaraeon yn fanylach i ystyried sawl gwaith yr wythnos mae disgyblion amrywiol yn cymryd rhan ac a yw rhai disgyblion yn fwy neu'n llai tebygol o fod yn egnïol.

Mae Ffigur 3 isod yn dangos y gwahaniaethau yn ôl rhyw ymhlith disgyblion Blynyddoedd 3-11

**Ffigur 3: Y nifer o weithiau yr wythnos y mae disgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu mewn clwb cymunedol – yn ôl rhyw**





Fel y trafodwyd uchod, mae'r mesur 'Wedi gwirioni ar chwaraeon' yn fesur cyfun o *weithgarwch sy'n digwydd y tu allan i wersi AG* – h.y. sawl gwaith yr wythnos mae disgybl yn cymryd rhan naill ai mewn gweithgaredd ysgol allgyrsiol neu weithgaredd mewn clwb cymunedol.

Gall deall cynnwys y mesur wedi gwirioni helpu i adnabod y gwahanol gyfraniadau a'r effaith y gall darparwyr ei chael ar y mesur 'wedi gwirioni'. Er enghraifft, gall disgybl fod wedi gwirioni ar chwaraeon drwy gymryd rhan mewn tri sesiwn ysgol allgyrsiol yr wythnos ond efallai nad yw'n gallu cymryd rhan mewn unrhyw gyfleoedd y tu allan i'r ysgol. Yn yr un modd, efallai bod lefelau uchel o ddarpariaeth a chyfranogiad cymunedol ond lefelau isel o gyfranogiad allgyrsiol. Efallai nad yw disgyblion yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon mewn rhai lleoliadau, oherwydd rhwystrau penodol neu ddiffyg darpariaeth. Hefyd, efallai nad ydynt yn teimlo bod y cynnig yn briodol i'w hanghenion - ac felly'n dewis peidio â chymryd rhan.

Mae'r ffigur isod yn dangos amledd y cymryd rhan mewn lleoliadau allgyrsiol a chlwb gan ddefnyddio'r mesur 'unwaith yr wythnos o leiaf'.

**Ffigur 4: Cyfranogiad unwaith yr wythnos o leiaf mewn chwaraeon allgyrsiol ac mewn clwb cymunedol.**




Mae'r data'n dangos bod canran uwch o ddisgyblion yn cymryd rhan (unwaith yr wythnos o leiaf) mewn clwb cymunedol o gymharu â lleoliadau allgyrsiol.


Mae canrannau is o ddisgyblion uwchradd yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol, ac mae lefelau cymryd rhan y merched ychydig yn is na'r bechgyn.

***Statws cymdeithasol ac economaidd a chyfranogiad***

Defnyddir canran y disgyblion ym mhob ysgol sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim fel mesur procsi o statws cymdeithasol ac economaidd plant ysgol yng Nghymru. Gosodir yr ysgolion yn yr arolwg mewn chwartel Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) – mae gan chwartel PYADd 1 ganran isel o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a dyma'r rhai a ystyrir fel yr ysgolion lleiaf difreintiedig. Mae gan chwartel PYADd 4 ganran uchel o ddisgyblion sy'n gymwys – yr ysgolion mwyaf difreintiedig.

Mae Ffigur 5 isod yn dangos canran y disgyblion sydd wedi gwirioni ar chwaraeon yn unol â'u chwartel PYADd.

**Ffigur 5: Wedi gwirioni ar chwaraeon yn ôl lefel gymharol o gyni**





Er bod canran y disgyblion sydd wedi gwirioni ar chwaraeon wedi cynyddu ers 2011, mae patrwm y cymryd rhan yn debyg yn y tri arolwg diwethaf. Mae rhyw ddeg pwynt canran o wahaniaeth rhwng disgyblion sydd wedi gwirioni ar chwaraeon yn PYADd 1 a PYADd 4.

**Wedi gwirioni ar chwaraeon ac anabledd**

Gofynnir i ddisgyblion a ydynt yn teimlo bod ganddynt anabledd neu nam. Yn 2013, roedd 31% o'r rhai a ddywedodd bod ganddynt anabledd neu nam 'wedi gwirioni ar chwaraeon' o gymharu â 41% o'r disgyblion a ddywedodd nad oedd ganddynt anabledd neu nam.

Mae Ffigur 6 isod yn dangos canran y disgyblion yn 2015 sydd wedi gwirioni ar chwaraeon yn ôl anabledd a rhyw.

**Ffigur 6: Wedi gwirioni ar chwaraeon, yn ôl anabledd a rhyw**



## Ym mha chwaraeon mae'r disgyblion yn cymryd rhan?

***Chwaraeon allgyrsiol***

**Mae Tabl 1 yn dangos y deg gweithgaredd uchaf y mae disgyblion yng ngrwpiau blwyddyn 3 i 11 fwyaf tebygol o gymryd rhan ynddynt, yn ôl rhyw, a chanran gyfatebol y disgyblion a gymerodd ran yn 2013 a 2011.**

**Tabl 2: Y chwaraeon allgyrsiol yr oedd disgyblion Blynyddoedd 3-11 fwyaf tebygol o gymryd rhan ynddynt**

| Merched | | | | Bechgyn | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Camp/Gweithgaredd*** | **2011** | **2013** | **2015** | ***Camp/Gweithgaredd*** | **2011** | **2013** | **2015** |
| Pêl rwyd | 28.6 | 32.0 | 31.9 | Pêl droed | 41.4 | 51.3 | 56.7 |
| Nofio | 11.8 | 20.5 | 22.1 | Rygbi | 31 | 35.1 | 35.1 |
| Athletau | 16.1 | 17.5 | 22.1 | Athletau | 18.1 | 20.3 | 23.8 |
| Rownderi | 17.7 | 19.6 | 21.9 | Pêl osgoi* | amh.* | 22.1 | 23.4 |
| Pêl droed | 14.5 | 17.4 | 21.5 | Rhedeg neu loncian** | amh. | amh. | 21.8 |
| Dawns | 22.9 | 22.0 | 21.0 | Nofio | 11.7 | 20.9 | |
| Rhedeg neu loncian** | amh. | amh. | 19.0 | Criced | 18.3 | 19.2 | 20.9 |
| Gymnasteg | 10.3 | 11.6 | 14.9 | Rownderi | 14.2 | 18.6 | 20.5 |
| Pêl osgoi* | am.* | 13.0 | 14.9 | Tennis | 17.5 | 20.6 | 20.5 |
| Tennis | 12.5 | 14.0 | 13.9 | Pêl fasged | 14.6 | 19.5 | 18.7 |

**Ni chafodd pêl osgoi ei gynnwys yn arolwg 2011*
***Rhedeg neu loncian wedi'u hychwanegu at arolwg 2015*

Ni fu llawer o newid yn y chwaraeon sy'n ymddangos ymhlith y deg gweithgaredd allgyrsiol uchaf yn y tri arolwg diwethaf. Roedd 'rhedeg neu loncian' yn opsiwn newydd yn arolwg 2015, i adlewyrchu'r gweithgareddau yr holir amdanynt yn yr Arolwg ar Oedolion Egnïol ac i gael mesur ehangach o'r gweithgareddau sydd wedi cynyddu yn eu poblogrwydd yn ôl pob tebyg drwy gyfleoedd fel rasys hwyl, rasys parc a digwyddiadau rhedeg cyhoeddus ar raddfa fawr.

***Cyfranogiad mewn Clybiau Cymunedol***

Gofynnir i ddisgyblion ym mha chwaraeon maent yn cymryd rhan mewn clwb **heb fod yn yr ysgol**. Yn 2015, y gamp fwyaf poblogaidd ymhlith **holl ddisgyblion Blynyddoedd 3-11** oedd pêl droed, gyda 34% yn cymryd rhan. Wedyn roedd nofio, gyda 33%.

Yn ôl rhyw, pêl droed oedd y gamp yr oedd y bechgyn fwyaf tebygol o gymryd rhan ynddi mewn clwb heb fod yn yr ysgol (51% yn cymryd rhan) ac wedyn rygbi (31%). Ymhlith y merched, nofio oedd y gamp uchaf (36%) ac wedyn dawns, gyda 29%.

Dangosir y deg gweithgaredd uchaf ar gyfer 2015 yn Nhabl 3 isod, gyda'u gwerthoedd cyfatebol ar gyfer arolygon 2013 a 2011.

**Tabl 3: Y chwaraeon clwb yr oedd disgyblion Blynyddoedd 3-11 fwyaf tebygol o gymryd rhan ynddynt**

| *Camp/Gweithgaredd* | **Merched** | | | *Camp/Gweithgaredd* | **Bechgyn** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | 2013 | 2015 | | 2011 | **2013** | 2015 |
| Nofio | 26.8 | 30.2 | 35.8 | Pêl droed | 44.9 | 48.7 | **51.3** |
| Dawns | 33.2 | 28.4 | 28.6 | Rygbi | 26.2 | 31.3 | **30.8** |
| Rhedeg neu loncian | amh. | amh. | 24.2 | Nofio | 25.3 | 25.3 | **30.1** |
| Dosbarthiadau ffitrwydd* | 6.5 | 17.9 | 21.2 | Rhedeg neu loncian | amh. | amh. | **20.9** |
| Gymnasteg | 13.5 | 14.2 | 18.6 | Tennis | 17.3 | 16.3 | **16.8** |
| Pêl rwyd | 10.1 | 16.2 | 18.6 | Athletau | 8.7 | 12.6 | **14.9** |
| Pêl droed | 10.9 | 14.7 | 16.0 | Criced | 14.1 | 14.7 | **14.9** |
| Athletau | 7.6 | 11.2 | 14.8 | Pêl osgoi | amh. | 11.4 | **13.3** |
| Marchogaeth ceffylau | 10.6 | 13.6 | 12.0 | Beicio | 7.5 | 11.3 | **13.2** |
| Tennis | 12.7 | 12.0 | 12.3 | Dosbarthiadau ffitrwydd* | 4.6 | **6.5** | **12.8** |

***Dim ond y disgyblion uwchradd a holir am gymryd rhan mewn dosbarthiadau ffitrwydd**

***Lleoliadau eraill (gweithgarwch anffurfiol)***

Ar wahân i ystyried chwaraeon yn yr ysgol ac mewn clwb cymunedol, gofynnir hefyd i ddisgyblion a ydynt yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau amrywiol 'yn unrhyw le arall' - er enghraifft, gartref, neu mewn parc neu ganolfan hamdden. Mae hyn yn rhoi mesur o'u cyfranogiad mewn gweithgarwch anffurfiol.

Dangosir y deg gweithgaredd uchaf y mae'r disgyblion fwyaf tebygol o gymryd rhan ynddynt *ar wahân* i mewn ysgol neu glwb cymunedol yn Nhablau 4 a 5 isod.

**Tabl 4: Y chwaraeon yr oedd disgyblion Blynyddoedd 3-6 fwyaf tebygol o gymryd rhan ynddynt ar wahân i yn yr ysgol neu mewn clwb cymunedol**

| | Blynyddoedd 3-6 | | |
|---|---|---|---|
| **Camp/Gweithgaredd** | **Bechgyn** | **Camp/Gweithgaredd** | **Merched** |
| Pêl droed | 74 | Nofio | 62 |
| Rhedeg/loncian | 57 | Rhedeg/loncian | 59 |
| Nofio | 55 | Beicio | 46 |
| Beicio | 47 | Dawns | 46 |
| Rygbi | 43 | Pêl droed | 40 |
| Tennis | 37 | Trampolinio | 36 |
| Criced | 32 | Gymnasteg | 33 |
| Trampolinio | 31 | Tennis | 30 |
| Pêl osgoi | 29 | Pêl rwyd | 28 |
| Rownderi | 28 | Athletau | 26 |

**Tabl 5: Y chwaraeon yr oedd disgyblion Blynyddoedd 7-11 fwyaf tebygol o gymryd rhan ynddynt ar wahân i yn yr ysgol neu mewn clwb cymunedol**

| | Blynyddoedd 7-11 | | |
|---|---|---|---|
| **Camp/Gweithgaredd** | **Bechgyn** | **Camp/Gweithgaredd** | **Merched** |
| Pêl droed | 64 | Rhedeg/loncian | 57 |
| Rhedeg/loncian | 48 | Nofio | 48 |
| Rygbi | 42 | Dawns | 31 |
| Nofio | 40 | Beicio | 29 |
| Beicio | 35 | Dosbarthiadau ffitrwydd | 27 |
| Tennis | 29 | Pêl rwyd | 27 |
| Pêl fasged | 26 | Pêl droed | 23 |
| Tennis bwrdd | 23 | Tennis | 22 |
| Gweithgareddau anturus | 22 | Athletau | 21 |
| Athletau | 21 | Gweithgareddau anturus | 21 |

Roedd yr opsiwn 'rhedeg neu loncian' yn ychwanegiad newydd at arolwg 2015, i adlewyrchu'r gweithgareddau yr holir amdanynt yn yr Arolwg ar Oedolion Egnïol ac i gael mesur ehangach o'r gweithgareddau sydd wedi cynyddu yn eu poblogrwydd yn ôl pob tebyg drwy gyfleoedd fel rasys hwyl, rasys parc a digwyddiadau rhedeg cyhoeddus ar raddfa fawr.

## Agweddau at AG a Chwaraeon

Yn 2013, dangosodd yr arolwg bod lefelau mwynhad, gallu a hyder i gyd yn gysylltiedig â'r tebygolrwydd o ddisgyblion wedi gwirioni ar chwaraeon [2]

***Mwynhad***

Mae'r tabl isod yn dangos a yw disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn tri lleoliad gwahanol - mewn gwersi AG, mewn clybiau chwaraeon yn yr ysgol (chwaraeon allgyrsiol) ac mewn chwaraeon y tu allan i'r ysgol (chwaraeon cymunedol). Gofynnir i ddisgyblion faint maent yn mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon yn y lleoliad penodol a gallant ateb 'yn fawr', 'ychydig', neu 'ddim o gwbl'.

Mae'r tabl isod yn dangos canrannau'r disgyblion sy'n ateb 'yn fawr'.

**Tabl 6. Mwynhau chwaraeon – canran y disgyblion a atebodd 'yn fawr'**

| | Blynyddoedd 3-11 | Cynradd | | Uwchradd | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pob disgybl | Bechgyn | Merched | Bechgyn | Merched |
| Mwynhau AG | 65.2 | 79.3 | 77.3 | 64.5 | 43.3 |
| Mwynhau chwaraeon mewn clybiau ysgol (chwaraeon allgyrsiol) | 53.0 | 71.1 | 67.8 | 46.5 | 31.7 |
| Mwynhau chwaraeon y tu allan i'r ysgol | 68.4 | 75.8 | 72.7 | 68.2 | 58.6 |

Disgyblion cynradd sydd fwyaf tebygol o fwynhau AG a chwaraeon, yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Disgyblion benywaidd mewn ysgolion uwchradd sydd leiaf tebygol o fwynhau AG a chwaraeon a chymryd rhan mewn chwaraeon mewn clybiau ysgol.

***Hyder***

Gofynnir i ddisgyblion pa mor hyderus ydynt wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd. Yn gyffredinol, dywedodd 79% eu bod yn 'hyderus iawn' neu'n 'hyderus'. Mae disgyblion gwrywaidd yn fwy tebygol o fynegi hyder - gydag 85% yn 'hyderus iawn' neu'n 'hyderus' o gymharu â 73% o ferched.

[2] http://sportwales.org.uk/media/1194537/theme2.pdf

***Pwysigrwydd ffordd o fyw iach***

Gofynnir i ddisgyblion i ba raddau maent yn meddwl bod AG a chwaraeon ysgol yn eu helpu i fyw'n iach. Yn gyffredinol, roedd 62% o ddisgyblion Blynyddoedd 3-11 yn meddwl bod AG a Chwaraeon Ysgol yn eu helpu 'yn fawr' i fyw bywydau iach. Ceir gwahaniaethau yn ôl oedran. Roedd 77% o ddisgyblion cynradd yn meddwl bod AG a chwaraeon ysgol yn eu helpu i fyw'n iach o gymharu â 49% o ddisgyblion uwchradd.

***Llais y disgybl***

Gofynnir i'r disgyblion a ydynt yn teimlo bod eu syniadau am AG a chwaraeon yn cael sylw.
Ledled Cymru, roedd 31% o ddisgyblion yn teimlo bod eu syniadau am AG a chwaraeon yn cael sylw 'bob amser'. Fel gyda'r mesurau uchod, roedd gwahaniaeth yn ôl oedran a rhyw. Roedd merched yn llai tebygol o deimlo bod eu syniadau'n cael sylw (28% o ferched o gymharu â 34% o fechgyn ddywedodd 'bob amser') ac roedd 42% o ddisgyblion cynradd yn teimlo bod hyn yn wir o gymharu â 22% o ddisgyblion uwchradd.

## Crynodeb

Mae arolwg 2015 wedi dangos cynnydd mewn lefelau cymryd rhan ymhlith disgyblion Blynyddoedd 3-11 Cymru. Mae'r gwahaniaethau ers peth amser mewn lefelau cymryd rhan i'w gweld o hyd, gyda disgyblion benywaidd a disgyblion hŷn yn cymryd rhan yn llai aml mewn AG a chwaraeon.

I gael rhagor o fanylion, ewch i:
[www.schoolsportsurvey.org.uk](http://www.schoolsportsurvey.org.uk)